




wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Canllawiau'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

Hydref 2019





Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

Diben y gronfa	4
Blaenoriaethau'r gronfa	4
Y broses ymgeisio	6
Dolenni defnyddiol a chanllawiau ar gyfer prosiectau rhyngwladol	6
Cysylltu â ni	8

Diben y gronfa

Diben y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yw:

- helpu i ddatblygu a chyfoethogi ymarfer artistig ac uchelgais rhyngwladol
- codi proffil celfyddydau Cymru'n rhyngwladol
- cryfhau cysylltiadau artistig rhyngwladol yn ôl i Gymru

Mae'r gronfa'n cefnogi ymweliadau tramor sydd â'r nod o ddatblygu gwaith rhyngwladol (yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor) a chyflwyno a darparu gweithgarwch artistig y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae cymorth grant ar gael yn bennaf at gostau teithio a llety, er y bydd costau sy'n gysylltiedig â darparu gweithgarwch prosiect yn cael eu hystyried hefyd.

Mae'r cynllun yn gystadleuol a £5,000 yw uchafswm y grant. Bydd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru'n ystyried lefel y cymorth ariannol y gofynnir amdano ac yn gwneud penderfyniad ar sail y blaenoriaethau a'r meini prawf a nodir isod, ynghyd â lefel y cyllid sydd ar gael.

Cymhwysra

Mae'r gronfa'n agored i artistiaid proffesiynol a sefydliadau celfyddydol o Gymru.

I gael gwybodaeth fanwl am y meini prawf cymhwysra a'r wybodaeth banc ofynnol ewch i'r nodiadau cymorth.

Blaenoriaethau'r gronfa

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn gweithgarwch sy'n cyfrannu at y canlyniadau canlynol, yn unol â'n [Strategaeth Ryngwladol Celf Cymru: yn bont o'n bro i'n byd](#):

- datblygu partneriaethau, cyfnewidfeydd a chydweithrediaadau artistig rhyngwladol
- mwy o gyfranogiad mewn rhwydweithiau rhyngwladol
- ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol y sector rhyngwladol gan arwain at broffil mwy a chyfleoedd rhyngwladol newydd
- gwybodaeth a chysylltiadau y gellir eu rhannu yng Nghymru
- cyfleoedd i greu a chyflwyno gwaith newydd

Beth ydym ni'n chwilio amdano?

Caiff y ffactorau canlynol eu hystyried wrth asesu ceisiadau:

Yr Ymgeisydd

- Proffiad proffesiynol yr ymgeisydd a'i hanes o lwyddo i gyflwyno gwaith yn rhyngwladol a'i ymrwymiad i ymarfer cyfoes yng Nghymru.

- Ymrwymiad proffesiynol i gyfnewid a chydweithredu rhyngwladol.
- Y cyfle i ddatblygu gyrfa ryngwladol yr artist yn sylweddol.
- Brwdfrydedd i gydweithredu ag ymarferwyr a sefydliadau rhyngwladol ac i fynd ati i ymgysylltu â rhwydweithiau rhyngwladol.

Y prosiect

- Y tebygrwydd y cyflenwir gwaith cyfoes o ansawdd da sydd â photensial sylweddol i gyfrannu at ddatblygu ffurfiau celf yng Nghymru.
- Proffil rhyngwladol y digwyddiad neu leoliad sy'n lletya'r prosiect
- Mae'r prosiect yn gynaliadwy heb ragor o gyllid oddi wrth y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol
- Mae'r prosiect yn dangos cydweithrediad a phartneriaeth artistig
- Yr ystyriwyd canlyniadau hirdymor y prosiect i'r artist ac i'r sector yng Nghymru
- Hyfywedd ariannol y cynnig a lefel y cyllid partneriaethol, gan gynnwys cymorth ariannol o ffynonellau rhyngwladol
- Dangos ymrwymiad cryf oddi wrth bartner(iaid) rhyngwladol
- Alinio ag amcanion [Cynllun Corfforaethol 2018-23 Cyngor Celfyddydau Cymru](#) wrth hybu cydraddoldeb a chryfhau gallu a chydnerthedd y sector.

Ni allwn gefnogi:

- Digwyddiadau a gynhaliwyd eisoes neu a gynhelir yn ystod y broses asesu.
- Astudiaethau neu hyfforddiant proffesiynol.
- Gweithgarwch hyrwyddo yn unig.
- Cymryd rhan neu fod yn bresennol mewn digwyddiadau cystadleuol.
- Cyflwyno gwaith gan artistiaid amatur/nad ydynt yn broffesiynol.
- Unigolion i arwain neu reoli prosiectau cyfranogol gyda phobl ifanc neu oedolion agored i niwed.
- 100% o gostau prosiect neu ymweliad.
- Artistiaid sydd wedi'u gwahodd i chwarae mewn gwyliau arddangos neu gynadleddau rhyngwladol sy'n gymwys i gael cyllid trwy [Gronfa Arddangos Rhyngwladol Sefydliad PRS](#) mewn partneriaeth â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Y broses ymgeisio

Cyn dechrau cais ar-lein, rhaid ichi gysylltu â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru er mwyn gwirio eich bod chi a'ch prosiect yn gymwys.

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad ac rydych yn ystyried cyflwyno cais, gallwn helpu i sicrhau y cewch gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Gallwch hefyd wneud cais am gostau cymorth mynediad i chi neu i unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'ch prosiect. Cysylltwch â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i drafod sut y gallwn helpu.

Cyn ichi gyflwyno'ch cais rhaid ichi wirio eich bod yn bodloni'r meini prawf canlynol: -

- Nad ymrwymwyd i unrhyw gostau eto ac nad oes unrhyw gostau ôl-weithredol yn y gyllideb.
- Bod yna gymorth sylweddol gan bartner(iaid) (naill ai ariannol neu mewn nwyddau) tuag at gostau'r prosiect, gan gynnwys o ffynonellau rhyngwladol.
- Rhaid bod gennych llythyr o wahoddiad oddi wrth eich partner rhyngwladol, yn nodi natur y bartneriaeth ac yn cadarnhau gwerth y cymorth ariannol. Os yw'r cymorth mewn nwyddau, rhaid i'r partner nodi amcangyfrif o'i werth mewn arian parod.
- Bod yna o leiaf 5 wythnos rhwng yr adeg y cyflwynwch eich cais a dyddiad dechrau'r prosiect.
- Os ydych chi'n gwneud cais i'r gronfa am y tro cyntaf, dylech hefyd gyflwyno llythyr o gefnogaeth oddi wrth weithiwr proffesiynol creadigol sefydledig o Gymru.

Rhaglen dreigl yw'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ac nid oes unrhyw ddyddiadau terfyn. Cewch benderfyniad cyn pen pedair wythnos waith ar ôl cyflwyno cais wedi'i gwblhau.

Mae cyfarfodydd penderfynu ar grantiau'n cael eu cadeirio gan un o'n Rheolwyr Portffolio neu Uwch Swyddogion Rhyngwladol. Mae'r paneli'n cynnwys Swyddogion Datblygu ac Uwch Swyddogion Rhyngwladol, a gallant hefyd gynnwys Cydweithwyr Celfyddydol sydd o bob rhan o Gymru ac sydd ag amrywiaeth fawr o arbenigedd.

Dolenni defnyddiol a chanllawiau ar gyfer prosiectau rhyngwladol

Ffioedd Artistiaid

Dylai'ch prosiect gynnwys ffioedd i dalu am eich amser chi ac amser aelodau tîm eich prosiect. Mae'r tabl isod yn nodi rhai Undebau a sefydliadau cymorth a all gynnig cyfarwyddyd, a hefyd yn nodi'r cyfraddau gros isaf posibl cyfredol (ym mis Awst 2019) yn y Deyrnas Unedig.

Pwy/Dolen	Ar gyfer	Cyfradd leiaf
a-n	Y Cwmni Gwybodaeth i Artistiaid ar gyfer artistiaid gweledol	£168 y dydd
BECTU	Yr Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograffeg a Theatr ar gyfer staff technegol	Y cyflog byw cenedlaethol sef £8.21 yr awr (mae hwn yn uwch na chyfradd leiaf yr awr gytunedig BECTU)
Equity	Ar gyfer actorion, cantorion a dawnswyr	£483 yr wythnos
itc	Cyngor Theatr Annibynnol ar gyfer ymarferwyr theatr	£483 yr wythnos
Undeb y Cerddorion	Undeb y Cerddorion ar gyfer cerddorion	£556.23 yr wythnos
UK Theatre	Ar gyfer staff theatrau a cherddorion	£450 yr wythnos

Cydweithredu Rhyngwladol Teg

Rydym yn cefnogi cydweithredu rhyngwladol teg yn llwyr, a dylai ymgeiswyr ystyried, gyda'u partner rhyngwladol, sut mae eu prosiect yn mynd i'r afael â materion fel anghyfartaledd economaidd, cyd-destunau gwleidyddol, cysylltiadau hanesyddol a thraddodiadau. Gellir gweld mwy o wybodaeth ddefnyddiol am brosiectau cydweithredu rhyngwladol teg yn [y pecyn cymorth](#) hwn sydd wedi'i gynhyrchu gan IETM, y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Celfyddydau Perfformio Cyfoes

Cynaliadwyedd

Dylai ymgeiswyr ystyried effaith amgylcheddol eu prosiect. Mae'r adnoddau i helpu gyda hyn yn cynnwys:

www.carbonfootprint.com/calculator.aspx

Adnoddau ar wefan [Julie's Bicycle](#)

Cyngor ar deithio oddi wrth y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

Dylai ymgeiswyr ystyried diogelwch y rheiny sy'n teithio'n rhyngwladol fel rhan o'r prosiect. Gellir gweld cyfarwyddyd gan Swyddfa Dramor a Chymanwlad Llywodraeth y Deyrnas Unedig [yma](#).

Cysylltu â ni



+44 29 2044 1300



info@wai.org.uk



[Wales Arts International - Celfyddydau Rhyngwladol Cymru](#)



[@WAICymruWales](#)